**Pwyllgor Diwylliant 12-02 (p.2)**

Dyddiad: 19 Mehefin 2002

Amser: 9.00 - 12.20pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## TEITL: YSTYRIAETH GYCHWYNNOL O FLAENORIAETHAU'R GYLLIDEB

### DIBEN

1. Mae'r papur hwn yn ymdrin ag asesiad y Gweinidog dros Ddiwylliant o'r gofynion ar ei chyllideb ar gyfer y cyfnod sy'n cael ei gynnwys yng Nghylch Cynllunio Cyllideb 2002. Er hwylustod, mae'r cyllidebau ar gyfer 2002-03, a'r ffigurau cynllunio dangosol ar gyfer 2003-04 a 2004-05, i'w cael yn Atodiad 1. Mae'r cynnydd yn y ffigurau o'u cymharu â'r ffigurau gwreiddiol yn y Cylch Cynllunio'r Gyllideb diwethaf eisoes wedi galluogi cynnydd sylweddol o'i gymharu â'r targedau.

2. Hoffai'r Gweinidog dros Ddiwylliant dderbyn sylwadau'r Pwyllgor ar y blaenoriaethau cyffredinol a ddylai fod yn sail i'r penderfyniadau ar sut i ddyrannu'r gyllideb yn y dyfodol. Bydd Cylch Cynllunio'r Gyllideb yn neilltuo cyllidebau pendant ar gyfer 2002-03, a chyllidebau dangosol ar gyfer y 2 flynedd ddilynol. Bydd yn effeithio'n fawr ar hynt y gwaith o gyrraedd y targedau sydd yn Cynllun i Gymru, a'r Cynlluniau Gweithredu Blaenoriaethol yn Creative Future:Cymru Greadigol a'r rhai a gaiff eu cynnwys yn hwyrach eleni yng Nghynllun Gweithredu'r Llywodraeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg. Yn ystod y cam hwn o'r Cylch Cynllunio, gwahoddir y Pwyllgor i fynegi barn ar flaenoriaethau cyffredinol; gofynnir i'r Pwyllgor fynegi'i farn ar gyllidebau manwl ar ôl y toriad pan eir ati i lunio'r gyllideb ddrafft.

### AMSERU

3. Er mwyn cadw at yr amserlen a bennwyd gan y Gweinidog Cyllid ar gyfer Cylch Cynllunio'r Gyllideb hwn, bydd yn rhaid i'r Pwyllgor nodi'i safbwyntiau mewn nodyn ffurfiol at y Gweinidog dros Ddiwylliant erbyn dydd Gwener, 5 Gorffennaf.

### CYFLWYNIAD

**Buddsoddi mewn Cymru Greadigol**

4. Elfen sylfaenol sy'n sail i'r strategaeth ddiwylliant **Creative Future: Cymru Greadigol** yw y gall

diwylliant fod yn gam tuag at helpu i greu cymdeithas mwy llewyrchus. Ym 1998 roedd y trosiant ar gyfer diwydiannau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru yn fwy na £1 biliwn ac roedd 29,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector. 16% y flwyddyn oedd cyfradd twf diwydiannau creadigol yn y DU yn y tair blynedd hyd at 2001. Fe’n hatgoffir o’r gwerth uchel am arian a ddaw o fuddsoddi yn y diwydiannau creadigol gan asesiad Fforwm Economaidd y Byd sy'n nodi mai'r diwydiannau diwylliannol yw un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn economi'r byd a chan y canllaw drafft ar gyfer cronfeydd strwythurol y CE sy’n nodi diwylliant fel pwynt twf economaidd. Mae diwylliant hefyd yn cael ei gydnabod fel arf bwerus ar gyfer brwydro yn erbyn anfantais gymdeithasol a hyrwyddo cyfle cyfartal.

4.1 Gall Cymru Greadigol wireddu'r weledigaeth o ran rhagoriaeth a chyfranogiad y cytunwyd arni gan bartneriaeth Cymru'n Creu ac awdurdodau lleol er mwyn:

- sicrhau bod datblygiad diwylliannol yn un o brif themâu trawsbynciol Llywodraeth Cynulliad Cymru
- sefydlu datblygiad diwylliannol fel prif dasg ar gyfer llywodraeth leol
- cydlynu gwaith cynllunio a gweithgareddau ar draws yr holl gyrff diwylliannol
- sicrhau gwerth diwylliannol o ystod eang o wariant cyhoeddus a phreifat.

4.2 Mae Cymru Greadigol yn ategu'r manteision economaidd, y manteision ym myd addysg, y manteision o ran lles ac iechyd, y cyfraniad i ddwyieithrwydd, yn ogystal â'r gwerth ynddo'i hun a ddaw o fuddsoddi mewn mentrau diwylliannol.

4.3 Er bod diwylliant wedi’i adael ar ymylon cynlluniau strategol yn y gorffennol, mae bellach yn chwarae rhan allweddol. Mae cyfanswm o £130 miliwn ar gael ar gyfer prif brosiectau cyfalaf celfyddydol sydd ar waith yng Nghymru yn 2002 ac mae buddsoddiadau cyfalaf mawr gwerth £45 miliwn ar waith neu ar y gweill gan yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol. O ran chwaraeon, amcangyfrifwyd bod defnyddwyr yn gwario £586 miliwn ar chwaraeon yng Nghymru (2.5% o gyfanswm gwariant gan ddefnyddwyr). Amcangyfrifwyd bod 20,500 o bobl yn cael eu cyflogi ym maes chwaraeon (1.8% o gyfanswm cyflogaeth).

4.4 Ymhlith y manteision a ddaw i unigolion, cymunedau a'r genedl yn sgil diwylliant y mae gwell iechyd corfforol a meddyliol, canlyniadau addysg gwell, dewis cadarnhaol yn lle trosedd a gwella amwynderau cymunedau. Mae diwylliant yn cyfrannu at strategaethau trawsbynciol y Cynulliad, yn ychwanegu gwerth ac yn gwella ansawdd, a cheir manteision sylweddol heb ormod o gostau.

4.5 Yn **Cynllun i Gymru** nodir cynllun a thargedau strategol y Cabinet i hybu bywyd diwylliannol Cymru; rhagoriaeth, cynhwysiant ac amrywiaeth yn y celfyddydau; cyfranogiad a rhagoriaeth mewn chwaraeon a hamdden; hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth ohoni; rhoi cyfle i fwy o bobl ymweld â llyfrgelloedd ac amgueddfeydd.

4.6 Mae'r papur hwn yn rhoi syniad cyffredinol o’r polisïau a'r blaenoriaethau cyffredinol o ran ariannu. Ynddo, fe geir:

asesiad o berfformiad a gweithgareddau yn 2001-02;

amlinelliad o gynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

4.7 Fel arfer, rydym yn cyrraedd ein nodau ac yn cyflawni'n hamcanion drwy'r Cyrff a Noddir gan y Cynulliad - ond nid bob amser. Mae Awdurdodau Lleol, y sector gwirfoddol, unigolion a'r sector preifat i gyd yn fudd-ddeiliaid a phartneriaid allweddol.

**ADOLYGIAD O 2001 - 02**

5. Cafodd fy Strategaeth Ddiwylliant, **Creative Future: Cymru Greadigol** ei chyhoeddi, ar ôl proses ymgynghori helaeth, ym mis Chwefror 2002. Mae wedi cael croeso gwresog iawn. Mae'r cynlluniau gweithredu ar gyfer 2001-02 i'w cael yn Atodiad 2, yn ogystal â'r newyddion diweddaraf ar hynt y gwaith.

5.1 Mae **Cynllun i Gymru** yn ein hymrwymo i "ddiwylliant creadigol ac unigryw; sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth, lle mae dwyieithrwydd yn realiti sydd ar gynnydd, a lle ceir cysylltiadau cryf rhwng celfyddydau a chwaraeon cymunedol a'n sefydliadau diwylliannol cenedlaethol."

Dyma’r ymrwymiadau penodol erbyn 2003/4:

- Cynyddu lefelau mynychu digwyddiadau celfyddydol i 42% o'r boblogaeth
- Sefydlogi cyfran y siaradwyr Cymraeg a chynnal y twf ymhlith pobl ifanc
- Cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Llyfrgell Genedlaethol o bell i 151,000
- Sicrhau bod pob llyfrgell gyhoeddus ar-lein erbyn 2002
- Ailddatblygu cyfleusterau ymwelwyr y Pwll Mawr, Blaenafon
- Cynnal y cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr ag amgueddfeydd trwy raglen o arddangosfeydd
- Cynyddu cyfranogiad allgyrsiol mewn chwaraeon gan blant 7-16 oed i 80%
- Cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon gan oedolion yng Nghymru i 60%
- Haneru'r bwlch rhwng cyfranogiad dynion a menywod mewn chwaraeon erbyn 2005

Ac erbyn 2010:

- Sicrhau mwy o siaradwyr Cymraeg, gyda'r cynnydd mwyaf ymhlith pobl ifanc
- Sicrhau cynnydd sylweddol mewn gwybodaeth a gwerthfawrogiad ledled y byd o gerddoriaeth, ffilm, celf, drama, treftadaeth ddiwylliannol a chwaraeon Cymru
- Sicrhau bod cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gael yn sgil dyfodiad Cwpan Ryder i Gymru yn 2010

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n dda. Mae 41.2% eisoes yn mynychu digwyddiadau celfyddydol, a bydd Cyngor Celfyddydau Cymru'n cyrraedd y targed erbyn y flwyddyn nesaf.

Mae mwy o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon, gyda 55% o oedolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon (cynnydd o 7.9% o'i gymharu â'r 47.1% a oedd yn cymryd rhan ym 1997-98) ac mae 72% o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon (cynnydd o 46% o'i gymharu â'r 49% a oedd yn cymryd rhan ym 1997-98). Mae mentrau arbennig wedi'u cyflwyno gan Gyngor Chwaraeon Cymru i annog mwy o fenywod a merched i gymryd rhan mewn chwaraeon. Drwy'r Her Genod yn Gyntaf mewn Ysgolion Uwchradd, mae ysgolion yn cynnig cyfleoedd newydd i oddeutu 13,300 o ferched nad ydynt wedi cymryd rhan o'r blaen mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

Bydd yr ystadegau ar siaradwyr Cymraeg ar gael pan gyhoeddir canlyniadau'r Cyfrifiad ddiwedd 2002 neu ddechrau 2003.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol eisoes wedi gwneud yn well na'r targed drwy ddenu 200,000 o bobl i ddefnyddio'r Llyfrgell o bell yn ystod 2001-02; ac felly mae wedi gosod targedau diwygiedig o 207,000 ar gyfer 2002-03, 238,000 ar gyfer 2003-04 a 274,000 ar gyfer 2004-05.

Disgwylir i bob un o lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru gyrraedd y targed i fod arlein erbyn diwedd Rhagfyr 2002. Efallai y bydd rhai achosion unigol lle na fydd hyn yn ymarferol oherwydd anawsterau technegol ond disgwylir goresgyn unrhyw anawsterau o'r fath yn ystod chwarter cyntaf 2003.

Mae'r Amgueddfa Genedlaethol wedi cyfnewid cytundebau â'r prif gontractwyr ar gyfer rhan o'r gwaith o ailddatblygu Pwll Mawr; ac mae'n parhau i chwilio am y cymorth ariannol a fydd ei angen ar gyfer cwblhau'r gyfres lawn o gyfleusterau.

Mae cael gwared ar y tâl mynediad i safleoedd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru wedi bod yn llwyddiant ysgubol, ac mae wedi arwain at gynnydd o 89% yn nifer yr ymwelwyr yn 2001-02 o'i gymharu â blynyddoedd cynt.

Mewn perthynas â'r Comisiwn Brenhinol, mae'r prosiectau a gymeradwywyd o'r £400,000 o arian EYF yn y cylch cyllideb diwethaf - prosiect TG newydd a gwaith atgyweirio adeiladau - yn mynd rhagddynt yn unol â'r disgwyl. Mae'r cynllun i wella mynediad i bobl anabl i swyddfeydd y Comisiwn ym Mhlas Crug a gafodd ei gymeradwyo o arian EYF y blynyddoedd cynt, a ohiriwyd oherwydd anawsterau adeiladu, yn awr wedi'i gwblhau'n llwyr.

5.2 Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant at y Gweinidog dros Ddiwylliant ar 24 Gorffennaf 2001 i gyfleu safbwynt y Pwyllgor yn ffurfiol ar flaenoriaethau cyllideb ar gyfer y cylch cynllunio'r gyllideb diwethaf. Roedd y Pwyllgor am weld cefnogaeth ar gyfer prosiectau penodol:

- sefydlu Cronfa Gelfyddydau Ieuenctid
- darpariaeth well o stiwdios a chyfleusterau ymarfer i artistiaid ifanc
- cymorth refeniw ar gyfer Opera Cenedlaethol Cymru gan gynnwys cyfraniad gan Gyngor Celfyddydau Cymru
- datblygu rhaglen gyfrifiadur BT/Gwasg Prifysgol Cymru ar gyfer geiriadur Saesneg - Cymraeg, Cymraeg - Saesneg
- cefnogaeth ar gyfer yr Ardd Fotaneg Genedlaethol
- costau sefydlu Sefydliad Theatr Rhyngwladol yng Nghymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ei Strategaeth Bum Mlynedd i Ddatblygu'r Celfyddydau sy'n cynnwys cynllun trawsbynciol ar gyfer y Celfyddydau a Phobl Ifanc, gan gynnwys darparu stiwdios a chyfleusterau ymarfer i artistiaid ifanc. Mae'r Cyngor yn bwriadu lansio’r Gronfa Gelfyddydau Ieuenctid yn hwyrach eleni.

Mae'r Cyngor hefyd wedi llofnodi cytundeb gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr ar gyfer pecyn o arian ar y cyd i sefydlogi Opera Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Cyngor, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi ariannu gwaith i lunio cynllun busnes manwl ar gyfer Sefydliad Theatr Rhyngwladol. Disgwylir i'r cynllun fod yn barod ym mis Gorffennaf.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio'n glòs â'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn ystod y flwyddyn ac mae ar hyn o bryd yn ystyried achos busnes yn gysylltiedig â chais am gymorth ariannol ychwanegol.

Rwyf wedi gwahodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gyflwyno'i gynigion i mi ar gyfer datblygu prosiect i greu geiriadur. Byddaf yn edrych yn ffafriol ar y prosiect yn y Cylch Cynllunio'r Gyllideb hwn os yw'r cynigion yn caniatáu datblygu fesul tipyn, dros gyfnod o amser realistig, ar sail costau cadarn a chost-effeithiol, ac yn darparu cynnyrch gwerth chweil ar gyfer defnyddwyr posibl.

## BLAENORIAETHAU AR GYFER CYLCH CYNLLUNIO'R GYLLIDEB

6. Mae Cynllun i Gymru a Cymru Greadigol yn nodi blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru hyd at 2010. Mae Cymru Greadigol hefyd yn nodi'r camau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd i hybu diwylliant hyd yn hyn, a thrwy ei saith Cynllun Gweithredu Blaenoriaethol mae'n pennu targedau clir i gwrdd â'r "Weledigaeth ar gyfer 2010."

6.1 Yn fy marn i, dyma’r prif flaenoriaethau ar gyfer y cylch cynllunio'r gyllideb hwn:

- **Cefnogaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg**

Cymryd camau i newid natur a maint y gefnogaeth a roddir i’r Gymraeg gan Lywodraeth y Cynulliad, yng ngoleuni adolygiad y Pwyllgor Diwylliant.

- **Creative Future:Cymru Greadigol**

Sefydlu cronfa newydd "Buddsoddi mewn Cymru Greadigol" fel ffordd o ganolbwyntio ar gyflawni ymrwymiadau Cymru Greadigol, i'w rhoi ar waith drwy'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ym maes diwylliant, awdurdodau lleol, neu'n uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad. Cynhelir cynllun peilot o'r gronfa yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

- **Strategaeth Ddigwyddiadau ar gyfer Cymru**

Datblygu Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol ar gyfer Cymru i ddatblygu ar yr enw da sydd eisoes gan Gymru am gynnal digwyddiadau megis Cwpan Rygbi’r Byd, Gyl Lenyddiaeth y Gelli, ac ati, i sicrhau llwyddiant digwyddiadau yn y dyfodol e.e. Cwpan Ryder 2010, i ystyried pa ddigwyddiadau eraill y gellid gwneud cais ar eu cyfer neu ba rai y gellir eu cefnogi ac i sicrhau bod Cymru’n elwa i’r eithaf yn sgil dod â digwyddiadau i Gymru.

- **Adnoddau**

Gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, i sefydlu'r strwythur strategol ac ymgynghorol newydd ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai yn ystod 2003-04.

- **Coleg Cerdd a Drama Cymru**

Datblygu partneriaeth Llywodraeth y Cynulliad gyda Choleg Cerdd a Drama Cymru i gyflawni blaenoriaethau Cymru Greadigol ym myd addysg a phroffesiynau celfyddydau perfformiadol.

- **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

Gweithredu cynigion manwl ar gyfer rhoi mwy o gymorth ariannol i gefnogi rhaglenni gwaith yr Ardd Fotaneg Genedlaethol.

- **Athrofa Chwaraeon Cymru**

Ystyried cynigion a ddatblygwyd ar gyfer uwchraddio Athrofa Chwaraeon Cymru sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd ac sy'n cael ei rhedeg gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

- **Y Comisiwn Brenhinol**

Mae'r Comisiwn wedi gwneud cais am gynnydd o £184,000 yn 2003/4 i barhau gyda'r gwaith o ddatblygu ei brosiect TG ynghyd â chynnydd sylfaenol o £100,000 i dalu am drwyddedau meddalwedd a chymorth.

**Cydymffurfio**

7. Mae gweithdrefnau'r Cynulliad mewn perthynas â dyrannu cyllidebau rhaglenni wedi'u nodi o dan reol sefydlog 19. Mae'r papur hwn yn cyfeirio at gyllideb Prif Grp Gwariant Diwylliant y Cynulliad. Mae'r pwerau sy'n perthyn iddynt wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad, neu wedi'i gwneud yn ymarferol gan y Cynulliad, ac mae'r hawl i weithredu'r cynlluniau a'r rhaglenni cysylltiedig wedi'i ddirprwyo i'r Gweinidog a'r swyddogion. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra a phriodoldeb.